**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Mercher, 13 Rhagfyr 2000

**Amser:** 2:00pm i 5.00pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**TOMEN SBWRIEL NANTYGWYDDON**

**ADRODDIAD CYNNYDD GAN YR YMCHWILYDD ANNIBYNNOL**

**Pwrpas**

1. Rhoi gwybodaeth i'r pwyllgor am hynt yr ymchwiliad ac am y rhaglen o weithgareddau ar gyfer y dyfodol.

**Argymhelliad**

2. Bod y pwyllgor yn nodi hynt yr ymchwiliad, ac yn cynnig ei sylwadau ar raglen waith y dyfodol.

**Cefndir**

3. Yn ôl y Cylch Gwaith, mae'n ofynnol imi baratoi adroddiadau bob deufis ar hynt yr ymchwiliad. Bydd yr adroddiadau hyn yn disgrifio'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud a'm bwriadau ar gyfer gweddill yr ymchwiliad.

**Hynt yr ymchwiliad hyd yma**

Tîm ymchwilio

4. Dechreuais ar y swydd ar 1 Tachwedd 2000. Roedd Rheolwr y Prosiect, Roger Chaffey, eisoes wedi'i benodi. Ymunodd Eirian Dyer â Thîm y Prosiect ar 6 Tachwedd fel cynorthwy-ydd gweinyddol, clerc fy nyddiadur, trefnydd y sesiynau cyhoeddus a gofalydd y wefan.

Hynt yr ymchwiliad

5. Cyfarfum â Chadeirydd Pwyllgor ACTh ar 1 Tachwedd. Cytunwyd i gynnal cyfarfodydd rheolaidd i gadw golwg ar hynt yr ymchwiliad, hynny i ategu'r adroddiadau ffurfiol y byddwn yn eu cyflwyno i'r Pwyllgor. Mae dau gyfarfod wedi'u cynnal hyd yma, y naill ar 15 Tachwedd a'r llall ym mis Rhagfyr. Mae Rheolwr y Prosiect yn cyfarfod â Chlerc y Pwyllgor bob wythnos i drafod hynt yr ymchwiliad ac i drafod unrhyw bwyntiau sy'n codi, ac i gadw golwg ar y gyllideb.

**Cyfarfodydd**

6. Rwyf wedi cael cyfarfodydd cychwynnol gyda phawb sy'n hysbys imi sydd â diddordeb. Gweler isod grynodeb o'r cyfarfodydd hyd yma:

7. <u>Cwnsler Cyffredinol</u> – Awgrymodd Winston Roddick y dylwn fynd ar ofyn cyngor cyfreithiol annibynnol, gan y gallai defnyddio OCG wanhau'r cyngor y gallai ddymuno ei roi i'r Pwyllgor ar ôl paratoi'r adroddiad. Awgrymodd fy mod yn mynd at Eversheds gan fod ganddynt gontract eisoes â'r Cynulliad ac am nad oes cysylltiad rhyngddynt a'r pynciau dan sylw'r ymchwiliad.

8. <u>RANT</u> – Cyfarfum â chynrychiolwyr RANT yn syth wedi imi gael fy nghyflwyno i'r Pwyllgor hwn ar 1 Tachwedd. Wedyn, euthum i un o gyfarfodydd wythnosol eu Pwyllgor yn y Gelli, Cwm Rhondda lle esboniais iddynt sut y byddwn yn mynd ati i gynnal yr ymchwiliad a'u cynghori sut i gyflwyno'u tystiolaeth. Cyfarfum â rhai o'r aelodau wythnos ddiwethaf hefyd (6 Rhagfyr) i drafod cyflwyno tystiolaeth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn fy marn i wedi bod yn fuddiol iddynt hwythau a finnau.

9. <u>Asiantaeth yr Amgylchedd</u> – Rwyf wedi cwrdd â Chyfarwyddwr Rhanbarthol ac aelodau'r "tîm" sy'n ymwneud â'r ymchwiliad. Trafodwyd rhai o'r themâu a fyddai'n sail ar gyfer cyflwyno tystiolaeth. Gofynnais i Asiantaeth yr Amgylchedd gyflwyno'i thystiolaeth erbyn 30 Rhagfyr, ar sail y themâu hyn.

10. <u>CBS Rhondda Cynon Taf</u> – Addawodd cynrychiolwyr yr awdurdod lleol y cawn eu cydweithrediad llawn. Cefais weld y ffeiliau yr oeddynt wedi cael gafael arnynt. Esboniais iddynt fy mwriad i gynnal ymchwiliad 'thematig' a gwnaethant gytuno i gyflwyno'u tystiolaeth yn unol â hynny. Siom imi oedd gweld mai dim ond Cofnodion oedd i'w cael o archifau'r hen Gyngor Bwrdeistref y Rhondda. Ymddengys bod 'adroddiadau'r swyddogion' wedi mynd ar goll. Gobeithir y dônt i'r golwg wrth chwilio'r ffeiliau'n fanylach.

11. <u>Awdurdod Iechyd Bro Taf</u> – Cyfarfum â'r Dr Mark Temple, ymgynghorydd Rheoli Clefydau Heintus, ein prif gyswllt ag Awdurdod Iechyd Bro Taf. Trafodwyd fy mwriadau ar gyfer cynnal yr ymchwiliad a'r adroddiadau "iechyd" amrywiol a

oedd wedi'u comisiynu dros y blynyddoedd i ddelio'n uniongyrchol ac yn anuniongyrchol â Nantygwyddon.

12. Swyddogion y Cynulliad Cenedlaethol – Mae tri chyfarfod wedi'u cynnal gyda swyddogion yr Adran Iechyd. Addawyd gwybodaeth imi am y cefndir iechyd cyhoeddus, yr ymchwil sy'n mynd rhagddi ac ymwneud y Swyddfa Gymreig â'r mater. Rwyf hefyd wedi cwrdd â chynrychiolwyr yr Is-adrannau Amgylchedd a Chynllunio. Rwyf wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Parhaol, Jon Shortridge, yn gofyn iddo sicrhau bod staff y Cynulliad ar gael i gyflwyno tystiolaeth yn sesiynau cyhoeddus yr ymchwiliad.

13. Amgen Rhondda – Cyfarfum â'r Rheolwr Gyfarwyddwr, dau gyd-Gyfarwyddwyr a Rheolwr y Safle i drafod y pynciau dan sylw. Cefais addewid ganddynt hwythau hefyd y cawn eu cydweithrediad llawn. Roedd ganddynt hefyd lyfrgell ffotograffau wych o'r domen ers iddynt ddod yn gyfrifol amdani. Rwyf wedi trefnu bod copïau'n cael eu gwneud – yr ymchwiliad fydd yn talu amdanynt.

**Casglu Tystiolaeth**

14. Pwysleisiais yn yr holl gyfarfodydd y byddai'r ymchwiliad yn gwbl "agored". Dywedais na fyddwn yn derbyn unrhyw wybodaeth na thystiolaeth freintiedig neu a roddwyd fel cyfrinach. Os bydd tyst yn teimlo y dylai'r Pwyllgor gael gwybodaeth o'r fath, yna dylai geisio dull arall o dynnu'i sylw ati.

**Themâu**

15. Gweler isod y themâu amrywiol y barnwyd y byddent yn briodol ar gyfer casglu tystiolaeth:

- Hanes y safle – Pam gafodd ei ddewis? Cefndir hydroddaearegol.
- Hanes "cynllunio" – beth oedd yr ystyriaethau?
- Hanes "caniatau" – trwyddedau rheoli gwastraff ac ati.
- Hanes "gorfodi" – pa gamau a gymerwyd, pryd?
- Hanes y "cwynion" – o'r dechrau (cyn cynllunio) hyd heddiw.
- Hanes prynu'r tir – trwy gytundeb neu Orchymyn Prynu Gorfodol.
- Hanes iechyd – pa gofnodion sy'n bod.
- Hanes ariannol – beth oedd yr ystyriaethau ariannol? Grant/benthyciadau ac ati
- Hanes y "trwytholchion" – yr ystyriaethau hydro/daearegol, nawr ac yn y dyfodol
- Hanes y "polisi derbyn gwastraff"
- Hanes yr "allyriannau nwy/aroglau" – y system gasglu a'r system ffaglau.

Ymgynghoriadau ysgrifenedig

16. Yn ogystal â bodloni'r ystyriaethau uchod, rwyf hefyd wedi ysgrifennu at yr unigolion/cyrff canlynol i fynegi iddynt fy niddordeb:

- Purolite International Cyf – y cwmni sy'n gyfrifol am fwyafrif y "slwdj" hidlo caled.
- Mri Evans a Collier – cyn-Gyfarwyddwyr Rhondda Waste Disposal Co. Cyf.
- Gweinyddydd Rhondda Waste Disposal Co. wedi iddynt fynd yn fethdalwyr.
- Cyfreithwyr 3C Waste Co. – gweithredwyr y safle yn sgil breinio'r LAWDAC gwreiddiol
- Dadansoddydd Cyhoeddus CBS Rhondda Cynon Taf
- Arolwg Daearegol Prydain, i gael mapiau a dyfynbris ar gyfer cynnal arolwg hydroddaearegol.
- Y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch, i gael gwybodaeth am y gwastraff diwydiannol a gynhyrchir ar y safleoedd y maent yn gyfrifol amdanynt ac a gladdwyd yn Nantygwyddon.
- Y cwmni dwr sy'n mynd â'r trwytholchion heb eu trin i'r carthffosydd a'u gollwng, heb eu trin, i Fôr Hafren.

**Cyngor Technegol**

17. Fel rhan o'r amodau penodi, cynigiodd y Cynulliad Cenedlaethol benodi arbenigwyr technegol annibynnol i roi cyngor ar feysydd technegol arbenigol. Cadwyd at y rheolau caffael arferol. Mae un "arbenigwr", Mr Peter Wright, wedi'i benodi i'm helpu i bori trwy'r dogfennau. Swydd rhan-amser ydyw, a fydd yn para am 6 wythnos.

Ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol, rwyf wedi mynd ar ofyn Llywydd cyfadran Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus Coleg Brenhinol y Ffisigwyr am gyngor ar benodi "arbenigwr meddygol".

Bydd angen cyngor hefyd arnaf ar "Wenwyneg" ac rwyf wedi cysylltu ag Athrofa'r Amgylchedd ac Iechyd ym Mhrifysgol Caerlyr.

**Dull**

18. Yn dilyn y gyfres o gyfarfodydd, rwyf wrthi'n trefnu nifer o sesiynau cyhoeddus a helpu'r cyhoedd i ddarparu tystiolaeth. Rwyf wedi agor Canolfan Adnoddau y gall y cyhoedd fynd iddi a gweld y dystiolaeth sydd wedi'i rhoi imi yn ogystal â dogfennau eraill sy'n berthnasol i'r ymchwiliad.

**Sesiynau Cyhoeddus**

19. Caiff yr holl sesiynau cyhoeddus eu cynnal yn Siambr y Cyngor, Swyddfeydd hen Gyngor Bwrdeistref y Rhondda, ym Mhentre, Rhondda.

20. Dechreuais dderbyn tystiolaeth trigolion lleol ddydd Llun yr wythnos hon a ddoe (11 a 12 Rhagfyr). Ar 15 Tachwedd, rhoddais hysbysiad yn y wasg leol a masnachol yn gofyn i unrhyw un a garai gyflwyno tystiolaeth i roi gwybod imi eu bod am wneud hynny. Câi'r trefniadau angenrheidiol eu gwneud wedyn.

21. Rwy'n rhagweld y bydd y dystiolaeth a ddaw i law yn codi nifer o gwestiynau y bydd gofyn ymchwilio'n ddyfnach iddynt. Rwyf innau'n paratoi cwestiynau ar sail fy ngwybodaeth a'm profiad – a byddaf yn eu gofyn yn gyhoeddus.

22. Bydd llawer o'r rhain yn golygu holi cyrff cyhoeddus a phreifat, a byddaf yn eu rhybuddio ymlaen llaw er mwyn iddynt allu trefnu bod eu personel yn bresennol i gynrychioli'u buddiannau. Efallai y byddwn am holi cyrff ac unigolion sydd ddim wedi cytuno i gydweithio. Er nad oes gennyf y grym i'w gwysio i fod yn bresennol, fe fyddaf yn ceisio dwyn perswad arnynt. Ond cofier, hyd yn oed pe bai gennyf y grym i wysio, ni fyddai o reidrwydd yn golygu y caem dystiolaeth well. Nid yf y march er ei dywys at ddwr.

**Y Ganolfan Adnoddau**

23. Agorwyd y Ganolfan Adnoddau yn swyddfeydd Pentre ar 4 Rhagfyr ac rwy'n meddwl fod y cyhoedd yn ei chael yn ddefnyddiol. Aelod achlysurol o staff y Cynulliad a gafodd ei benodi yn bennaf at y diben sy'n gofalu amdani. Yn ogystal â darparu gwybodaeth, ceir yn y Ganolfan hefyd adnoddau ffotocopïo, sy'n golygu y gall pobl gopïo gwybodaeth a mynd â deunydd adref i'w astudio yn ogystal â chael hyd iddi.

**Y Wefan**

24. Caiff unrhyw wybodaeth a gawn ar ffurf electronig ei rhoi ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Bydd gwybodaeth allweddol arall, fel papurau pwyllgor, trawsgrifiadau o sesiynau cyhoeddus a manylion sesiynau hefyd yn cael eu rhoi ar y wefan.

**Cyllideb**

25. Gweler isod ein gwariant hyd yma:

| Categori | Amcangyfrif o Gyfanswm y Gwariant<br><br>£ | Gwariant hyd yma<br><br>£ |
|---|---|---|
| Tâl | 72,670 | 13,300 |
| Teithio a chynhaliaeth | 14,100 | 1,835.02 |
| Cyngor Technegol | 43,800 | Dim |
| Technegwyr | 13,000 | Dim |
| Sesiwn Agored | 36,500 | 2,925.59 |
| Canolfan Adnoddau | 5,000 | Dim |
| Hysbysebion yn y wasg | 12,500 | 1,325.68 |
| Adroddiad | 14,000 | Dim |
| Wrth gefn | 88,430 | Dim |
| **CYFANSWM** | 300,000 | 19,386.29 |

**Y Rhaglen yn y Dyfodol**

Ymchwiliad

26. Rwy’n rhagweld y bydd y sesiynau cyhoeddus/agored yn parhau gydol Ionawr a Chwefror. Gallaf feddwl y bydd yn broses ailadroddus. Bydd y cwestiynau a godir a’u hatebion yn codi cwestiynau pellach y bydd gofyn eu hateb. Unwaith bydd y broses wedi’i gwneud, rwy’n rhagweld y bydd gennym ddigon o ddeunydd ar gyfer agweddau ‘ymchwiliadol’ fy adroddiad.

Gwersi ar gyfer y Dyfodol

27. Mae’r cylch gwaith yn gofyn imi hefyd nodi gwersi ar gyfer y dyfodol ac

ystyried dyfodol rheoli gwastraff yng Nghymru. I'r perwyl hwn, rwy'n bwriadu ymgynghori â'r rheini sydd â diddordeb. Dyma'r posibiliadau rwyf yn eu hystyried:

- Cyfres o gyfarfodydd gyda rheolwyr y cyrff amrywiol i drafod y dewis a'r rhagolygon
- Cylchredeg holiadur
- Cynnal gweithdai i'r rheini sydd â diddordeb
- Cynhadled gymunedol ar reoli gwastraff

28. Mae'n bosib bod yna fecanweithiau addas eraill y gellid eu defnyddio. Mae cyrff eraill yn trefnu digwyddiadau eraill a byddaf yn eu mynychu os medraf.

David Purchon

Ymchwilydd Annibynnol

Tomen Gladdu Nantygwyddon

Rhagfyr 2000